Cyd-gyngor Cymwysterau

AQA City & Guilds CCEA Edexcel OCR SQA CBAC

Cynhyrchwyd ar ran: AQA, CCEA, Edexcel, OCR a CBAC

Hysbysiad i Ganolfannau

Tynnu manylebau TGAU yn ôl

Trefniadau asesu yn ystod y cyfnod pontio rhwng y manylebau cyfredol (hen) a'r manylebau newydd

Hoffai cyrff dyfarnu'r CGC atgoffa'r canolfannau TGAU o'r trefniadau asesu yn ystod y cyfnod pontio rhwng y manylebau TGAU cyfredol (yr hen fanylebau) a'r manylebau newydd. Bydd y cyrff dyfarnu unigol yn rhoi gwybod i'r canolfannau am y trefniadau'n ymwneud â'u manylebau nhw. Yn y tabl canlynol rhoddir rhestr o'r cyfleoedd asesu am y cyfnod sy'n pontio tynnu'n ôl y manylebau TGAU cyfredol (yr hen fanylebau) a chyflwyno'r manylebau sydd newydd eu hachredu.

Cymwysterau TGAU <u>mewn pynciau ac eithrio</u> Cymraeg Ail Iaith, Cymraeg Iaith Gyntaf, Gwyddeleg, y Gwyddorau, Llenyddiaeth Gymraeg, Llenyddiaeth Saesneg, Mathemateg, Saesneg, Saesneg Iaith, a TGCh:

Noder: Mae'r tabl hwn hefyd yn berthnasol i gymwysterau TGAU mewn Daeareg, Electroneg, y Gwyddorau Amgylcheddol, Iechyd Dynol a Ffisioleg, Seryddiaeth.

Cyfres Arholiadau	**Manylebau cyfredol (hen fanylebau)**	**Manylebau newydd**
Ionawr 2011	Cynigir unedau a asesir yn allanol i rai manylebau. Ni chynigir unrhyw unedau a asesir yn fewnol. Gwiriwch wefannau'r cyrff dyfarnu unigol. *Bydd yn bosibl ardystio'r manylebau hynny ag unedau a gynigir.*	Bydd yr unedau hynny mae'r fanyleb yn dangos y byddant ar gael yn y gyfres hon yn cael eu cynnig. *Ardystio'r manylebau cwrs byr newydd lle maent ar gael.*
Mehefin 2011	Ni chynigir unrhyw arholiadau. *Nid yw'n bosibl ardystio.*	Pob uned ac arholiadau llinol ar gael. *Ardystio manylebau cyrsiau llawn a byr lle maent ar gael.*
Ionawr 2012	Ni chynigir unrhyw arholiadau. *Nid yw'n bosibl ardystio.*	Bydd yr unedau hynny mae'r fanyleb yn dangos y byddant ar gael yn y gyfres hon yn cael eu cynnig. *Ardystio manylebau cyrsiau llawn a byr lle maent ar gael.*
Mehefin 2012	Ni chynigir unrhyw arholiadau. *Nid yw'n bosibl ardystio.*	Pob uned ac arholiadau llinol ar gael. *Ardystio manylebau cyrsiau llawn a byr lle maent ar gael*

©2010

Cymwysterau TGAU mewn Cymraeg Ail Iaith, Cymraeg Iaith Gyntaf, Gwyddeleg, y Gwyddorau, Llenyddiaeth Gymraeg, Llenyddiaeth Saesneg, Mathemateg, Saesneg, Saesneg Iaith a TGCh:

Cyfres Arholiadau	Manylebau cyfredol (hen fanylebau)	Manylebau newydd
Tachwedd 2010	Bydd yr unedau a'r arholiadau terfynol hynny sy'n cael eu cynnig fel arfer ar gael. *Bydd yn bosibl ardystio unedau ag arholiadau terfynol.*	Bydd yr unedau hynny mae'r fanyleb yn dangos y byddant ar gael yn y gyfres hon yn cael eu cynnig. *Nid yw'n bosibl ardystio.*
Ionawr 2011	Cynigir unedau a asesir yn allanol i rai manylebau. Gwiriwch wefannau'r cyrff dyfarnu unigol. *Bydd yn bosibl ardystio'r manylebau hynny ag unedau a gynigir.*	Bydd yr unedau hynny mae'r fanyleb yn dangos y byddant ar gael yn y gyfres hon yn cael eu cynnig. *Nid yw'n bosibl ardystio.*
Mawrth 2011	Yr unedau hynny a gynigir fel arfer yn unig fydd ar gael. *Nid yw'n bosibl ardystio.*	Bydd yr unedau hynny mae'r fanyleb yn dangos y byddant ar gael yn y gyfres hon yn cael eu cynnig. *Nid yw'n bosibl ardystio.*
Mehefin 2011	Pob uned ac arholiadau terfynol ar gael *Bydd yn bosibl ardystio pob manyleb.*	Bydd yr unedau hynny mae'r fanyleb yn dangos y byddant ar gael yn y gyfres hon yn cael eu cynnig. *Ardystio manylebau cwrs byr lle maent ar gael.*
Tachwedd 2011	Bydd arholiadau terfynol sy'n cael eu cynnig fel arfer ar gael. *Bydd yn bosibl ardystio manylebau ag arholiadau terfynol.*	Bydd yr unedau hynny mae'r fanyleb yn dangos y byddant ar gael yn y gyfres hon yn cael eu cynnig. *Nid yw'n bosibl ardystio.*
Ionawr 2012	Cynigir unedau a asesir yn allanol i rai unedau. Gwiriwch wefannau'r cyrff dyfarnu unigol. *Bydd yn bosibl ardystio'r manylebau hynny ag unedau a gynigir.*	Bydd yr unedau hynny mae'r fanyleb yn dangos y byddant ar gael yn y gyfres hon yn cael eu cynnig. *Ardystio manylebau cwrs byr lle maent ar gael.*
Mawrth 2012	Cynigir asesiadau allanol i rai manylebau. Gwiriwch wefannau'r cyrff dyfarnu unigol. *Bydd yn bosibl ardystio'r manylebau hynny ag asesiadau a gynigir.*	Bydd yr unedau hynny mae'r fanyleb yn dangos y byddant ar gael yn y gyfres hon yn cael eu cynnig. *Nid yw'n bosibl ardystio.*
Mehefin 2012	Ni chynigir unrhyw arholiadau. *Nid yw'n bosibl ardystio.*	Pob uned ar gael *Bydd yn bosibl ardystio pob manyleb.*

©2010

Cymwysterau TGAU mewn Gwyddoniaeth:

Yr hen fanylebau cyfredol yn unig fydd yn cael eu cynnig yn y flwyddyn hyd at Fehefin 2011.

Cymryd TGAU yn y Pynciau Gwyddonol dros dair blynedd

Os byddwch yn cynnig TGAU yn y Pynciau Gwyddonol dros dair blynedd bydd angen i chi wirio rhai pethau.

Er y bydd TGAU fel arfer yn cael eu cymryd dros gyfnod o ddwy flynedd, mae'n bosibl eu cymryd dros dair blynedd. Yn yr achos hwn, rhaid i ganolfannau:

- wirio dyddiad adolygu'r achrediad er mwyn sichrau bod myfyrwyr yn cael eu cofrestru am y fanyleb gywir

- cadarnhau'r trefniadau asesu a'r llinellau amser â'r cyrff dyfarnu yn ystod y cyfnod pontio at fanylebau newydd.

Mae'n bwysig cofio nad yw'r cyrff dyfarnu'n gallu trosglwyddo credyd o'r manylebau cyfredol i'r manylebau newydd, ac na ellir cyfuno unedau o fanylebau cyfredol a manylebau newydd i greu cymhwyster TGAU.

Dyddiad adolygu achrediad y TGAU cyfredol mewn gwyddoniaeth yw Awst 2012. Dylai'r canolfannau hynny sy'n bwriadu cynnig TGAU mewn gwyddoniaeth dros dair blynedd (Medi 2010 i Fehefin 2013) ddefnyddio'r rhaglenni astudio cyfnod allweddol 4 i baratoi cynlluniau gwaith. Mae manylebau drafft newydd ar gael ar wefannau'r cyrff dyfarnu, ac er y gallai'r rhain newid, gallant fod o gymorth wrth gynllunio.

Bydd y manylebau newydd yn cael eu hachredu yn yr hydref 2010 er mwyn i ganolfannau gynllunio i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2011 i'w dyfarnu am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2012 yn achos Gwyddoniaeth a Gwyddoniaeth: Gradd Unigol[1] neu Fehefin 2013 yn achos Gwyddoniaeth Ychwanegol, Gwyddoniaeth Gymhwysol Ychwanegol, Gwyddoniaeth: Dwyradd[1], Bioleg, Cemeg, Ffiseg a Gwyddoniaeth yr Amgylchedd a'r Tir. Ni fydd asesiadau ar gael i'r manylebau newydd hyn tan ddiwedd 2011 o leiaf.

Bydd hysbysiad arall yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2011 i nodi'r cyfleoedd asesu wrth dynnu'n ôl yr hen fanylebau a chyflwyno'r manylebau newydd.

[1] Mae manylebau â'r teitl hwn i'w defnyddio yng Ngogledd Iwerddon yn unig.

©2010